Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**6 RHAGFYR 2023**

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2024 GwE – Adroddiad monitro chwarter 1 a 2

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno adroddiad monitro chwarter 1 a 2 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2024 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Mae’r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a’n hymddygiad, a’r meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

**2.2** Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru.

**2.3** Adroddir ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i’r Cyd-bwyllgor. Ynghlwm mae’r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1 a 2.

**3.0 Ystyriaethau**

**3.1** Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

**3.2** Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

**3.3** Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno rhwng y Pennaeth Gwasanaeth a'r Arweinydd Craidd.

**3.4** Wrth drafod Adroddiad Blynyddol GwE 2022-23 yn y Cydbwyllgor ar 24/05/2023, awgrymwyd y byddai'n fuddiol cynnal gweithdai i'r dyfodol i drafod materion penodol mewn mwy o fanylder. Mewn ymateb i hynny, mae cyfres o weithdai wedi eu trefnu dros y misoedd nesaf ar y themâu a ganlyn:

- Fframwaith Gwella Ysgolion - Cynlluniau Cymorth i Ysgolion
- Pontio
- Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu
- Grant Datblygu Disgyblion / Plant mewn Gofal

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1 a 2.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd neu weithdai yn y dyfodol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 1 a 2

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon na fydd gweithredu’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.